



YSGOL I.D. HOOSON

03.11.21

NOSWEITHIAU RHIENI

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Hoffem roi y cyfle i chi drafod cynnydd eich plentyn gyda'r athrawon dosbarth yn ystod yr wythnos sydd yn cychwyn ar y **15fed o Dachwedd ar gyfer y dosbarth Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2**, ac yna yn ystod yr wythnos yn cychwyn **22ain o Dachwedd ar gyfer blynyddoedd 3,4,5 a 6**. Cynhelir y nosweithiau o **3.30 hyd at 5.30 i ddosbarthiadau blynyddoedd Derbyn i flwyddyn 6**, gyda'r dosbarth **Meithrin o 3.30 hyd at 6 o'r gloch**. O ganlyniad i resymau iechyd a diogelwch yn ymwneud a Covid-19, nid ydym mewn sefyllfa i gynnal y nosweithiau hyn yn yr ysgol yn y drefn arferol, ac felly ni fydd yn bosib i gynnal cyfarfodydd wyneb i wyneb gyda'r athro/awes yn yr ysgol. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i roi cynnig i chi drafod gyda'r athro drwy gyfrwng cyswllt dros y cyfrifiadur gan ddefnyddio adnodd 'Bookings'. Mae'r adnodd hwn yn rhan o lwyfan dysgu Hwb Llywodraeth Cymru y mae eich plentyn yn barod yn gwneud defnydd ohono. A fyddech cystal â chymryd sylw gofalus o'r gofynion ynglŷn â'r trefniadau fel a ganlyn:

Bydd cyfnod o 10 munud ar gael i chi i drafod gyda'r athro/awes. Mae'r amserlen yn un gymharol dyn, ac felly ni fydd yn bosib i fynd dros yr amseroedd penodol y byddwch wedi ei dewis ar gyfer y cyfarfod.

I helpu'r trefniadau, ac er mwyn gwneud y mwyaf o'r amseroedd fydd ar gael, bydd disgwyl i chi ddewis lleoliad tawel ar gyfer y cyfarfod, ble na fydd sŵn cefndir neu eraill, yn oedolion neu blant, yn tarfu ar y drafodaeth.

Bydd yn gyfle i'r athro/awes gyflwyno ychydig o wybodaeth i chi ynglŷn â chynnydd eich plentyn dros y flwyddyn. Bydd cyfle i chi holi'r athro/awes am agwedd o gynnydd eich plentyn.

Mae'r drefn yma ar gyfer nosweithiau rhieni yn gymharol newydd i bawb, ac felly rydym yn gofyn am gydweithrediad pawb gyda'r trefniadau. Os y bydd rheswm yn atal cyfarfod i fedru cael ei drefnu, neu anhawsterau yn codi wrth geisio trefnu amser neu yn ystod y cyfarfod, yna bydd yr athro/awes ddosbarth yn trefnu i gysylltu gyda chi dros y ffôn yn ystod yr wythnos sy'n dilyn.

Er mwyn trefnu noson gydag athro/awes ddosbarth eich plentyn, bydd angen i chi ddilyn y linc isod, dewis yr athro/awes ac yna dewis amser sydd ar gael. Byddwch yn sylwi fod mwy na un noson ar gael i chi. **Bydd yr athrawon yn eich derbyn i mewn i'r cyfarfod pan y byddant yn barod. A fyddech cystal a dewis athro/awes eich plentyn yn unig wrth drefnu amser ar gyfer eich cyfarfod a dewis un amser yn unig.**

Ar gyfer Meithrin/Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 -

https://outlook.office365.com/owa/calendar/YsgollDHooson1@hwbwave15.onmicrosoft.com/bookings/s/8h_UF5jp4UG251nUR-RvkQ2

Ar gyfer Blwyddyn 3,4,5,6

<https://outlook.office365.com/owa/calendar/YsgollDHooson1@hwbwave15.onmicrosoft.com/bookings/s/2H5FhWJTOkqf9-zDaezP3w2>

Ar gyfer dosbarth Meithrin, Derbyn, blwyddyn 1 a 2, a fyddech cystal â dewis un o'r nosweithiau ar gyfer eich cyfarfod erbyn **dydd Mercher Tachwedd 10fed**.

Ar gyfer dosbarthiadau blynyddoedd 3,4,5 a 6, a fyddech cystal â dewis un o'r nosweithiau ar gyfer eich cyfarfod erbyn **dydd Mawrth Tachwedd 16eg**.

Ar y noson, bydd yr athro/awes yn rhoi mynediad i chi i'r cyfarfod ar yr amseroedd penodol.

Amserlen Nosweithiau Rhieni

Dosbarthiadau / Classes	Dyddiad ac Amser / Date and Time (3.30-5.30) Meithrin -3.30-6.00
Meithrin / Derbyn / Blwyddyn 1 a 2	15.11.21 / 16.11.21 / 17.11.21
Blwyddyn 3/4/5 a 6	22.11.21 / 23.11.21 / 24.11.21

Yn ddiffuant,
Mr Rhodri Jones
Pennaeth